**Dear Parent / Guardian** **January 2011**

I would like to take this opportunity to wish you all a Happy New Year and to thank you for your support throughout the term. Last term was very busy for all concerned particularly with ensuring that The Post Inspection Action Plan is implemented fully. I am pleased to note that the new Senior Leadership Team is working well and has, already, made significant changes to curriculum and structures that will benefit all learners. All staff are working hard and it is clear that we have, significantly, moved forward during this term. The end of term was unfortunate with the snow and we had to postpone our annual Prize Evening with Mr Glyn Heulyn Roberts as the guest speaker and also our carol service at Peniel Chapel. The children were also unable to have the traditional end of term celebrations and have the opportunity to farewell with Mrs Anne Hubbard who has taken early retirement. As Mrs Hubbard was Head of the Sixth Form, the students are planning a formal farewell during this half term.

Due to the snow in December, it is our intention to postpone the staff Training Day, planned for 28th of January and have this as a normal school day. A number of subjects, already, have made arrangements to have extra lessons, or special lessons with their classes and if you are concerned in any way or require information, please contact me or the Head of Year. I have confirmed with the students that they are able to use school facilities after school every evening apart from Friday 3.15 – 5.00 where they can use the library, have a quiet place to work or have access to computers or receive extra help. We have applied to the Welsh Assembly for a grant to have an After School Club and will keep you informed of any developments.

I have spoken to the senior school and have reminded them that all external examinations planned for this half term will go ahead irrespective of weather. WJEC the Examinations Board cannot change the dates or times. It is imperative, therefore, that you follow the weather projections carefully and consider making arrangements for your child to stay with a friend in Aberaeron the night before an examination rather than being unable to come in to Aberaeron because of snow. We will ensure that we update all candidates of any severe weather warnings. I have asked everyone to consider what arrangements that might be possible and to inform their Head of Year or members of the Senior Leadership Team if there is a potential problem. I can assure you that we will do whatever we can to support you in this matter.

I hope that our new telephone system was useful to you during the severe weather as we were able to place a message stating that the school was closed due to the snow. We do, also, inform Radio Ceredigion, Radio Cymru and Radio Wales, but they do not always announce the closure. We will ensure that in the event of severe weather, we will have a message on our telephone system giving information about being open or closed. No message will mean that the school is open as usual. In the event of having to close the school during the day because of snow, we will have the children's safety in mind at all times. We are in close contact with the bus companies and will be advised by them regarding remaining open or closing.

We have a system in place where we allow Aberaeron pupils home first which reduces pupil numbers in school and alleviates some of the pressure. We check with the pupils whether they have permission to go home and will ring if there are any uncertainties. We would prefer if you contacted the school directly if you have any concerns rather than contacting your child by mobile phone as this, usually, has an excitable effect on the children which exasperates the difficulty. Once we have made the decision to close the school we will allow pupils to use their mobiles

We are endeavouring to introduce an E-mail service for parents and I am grateful to those of you who have already supplied us with E-mails. If you wish to be contacted by E-mail, and/or text message please complete the attached slip.

**1.** Please note the dates of various activities that will take place this term and also during the first part of the summer term.

| | |
|---|---|
| **10 – 28 Jan** | **A/AS Module Examinations** |
| 21 Jan | Year 11 reports to be distributed |
| **24 Jan** | **Year 11 Parents Evening – 3.45p.** |
| **18 Feb** | **School Eisteddfod** |
| **21 – 25 Feb** | **Half Term** |
| 2 March | Year 9 Parents Evening – 3.45p.m. |
| 4 March | Highlights from the Eisteddfod |
| 5-12 March | Ski Trip to Deux Alpes France |
| **11 March** | **INSET** |
| 14 March | Year 9 Parents Evening – 3.45p.m. |
| 21 March | Year 7 Parents Evening – 3.45p.m. |
| **13 April** | **Prize Evening** |
| **18 April – 2 May** | **Easter Holidays + May Day** |
| **4 May** | **Sports Day** |
| **9-13 May** | **Year 9 Internal Examinations** |
| **16 May – 24 June** | **A/AS GCSE Summer Examinations** |
| **30 May / 3 June** | **Half Term** |
| **20 – 24 June** | **Yrs 7, 8 & 10 Internal Examinations** |
| **4 – 8 July** | **Year 10 Work Experience** |
| **11-15 July** | **German Trip** |
| **15 July** | **End of Term** |
| **18-19 July** | **INSET Days** |

## 2. Closing School in an Emergency

We would appreciate if you would discuss closing school in an emergency with your son/daughter so they know what steps you wish them to take. This of course, will only happen in an emergency e.g. severe weather, or heating problems in school. At the beginning of this term we had severe weather indeed, which resulted in the school having to close. We apologies that the decision to close was not made in the evening, because there was no snow in Aberaeron, we had to wait until the morning.

If the decision to close is made we will contact Radio Ceredigion by 6.45a.m., to enable announcements to be made at 7.00a.m. The situation in Aberaeron and the surrounding area is unique, with bright weather in Aberaeron, but snow drifts in Synod Inn. The safety of our pupils is always our man focus when making the decision. I can assure you that we would not take any risks, with the safety of any of our pupils. Resulting from talks with Governors, staff and pupils we intend to create a place on our web site to enable pupils to carry on studying and completing school work. Some of the senior pupils kept in contact through e-mails, which is another way we may consider. If you have any ideas or suggestions on ways to improve this area please do not hesitate in contacting the school.

**3.** This year's **GCSE and A/AS Examinations** will be held from May 16th – 24th June 2011 but some practical / oral examinations will be held before May 16th.

## 4. School Eisteddfod

The School Eisteddfod which will be held on Friday, 18th February is an important school event and all pupils are encouraged to participate in the various competitions. There are competitions for Welsh speakers and Welsh learners. **All pupils attending the Eisteddfod both in the afternoon and evening must be dressed in full school uniform.** The afternoon session starts at 1.00p.m. and the evening session at 4.15p.m. It is expected that the Eisteddfod will finish between 9.30-10.00p.m.

**Note**

**This year again the school buses will leave at 3.15 p.m. There will be no school buses at the end of the evening session and parents are asked to make their own transport arrangements. If your son / daughter is taking part in the evening session and has difficulty getting home, please inform the school in writing as soon as possible.**

Meals can be purchased at the Canteen between 3.15 and 4.15p.m. by pupils and visiting adults. Both the afternoon and evening sessions are open to the public and tickets will be available at the door £4 for afternoon and evening sessions; £3 for the evening session only. This is one of the major events of the school calendar and I extend a very warm welcome to all parents to join us on this day.

## 5. Single School Leaving Date

There is now one single school leaving date, which is the last Friday in June in the school year in which a child reaches age 16. In 2010 this date will be **Friday 24th June.** Pupils must therefore remain in education at school or otherwise until the advertised date. Employers may not employ pupils full-time until this date.

## 6. Official School Uniform

I should like to draw your attention also to the official list of uniform and ask you earnestly to conform to our requirements when you are buying new items of uniform. Items of school uniform can be purchased at Box of Delights, Aberaeron (jumpers, polo shirts & ties), Elegance New Quay, Alison Jones Schoolware PO Box 180 Aberystwyth SY23 3XE (uniform@btinternet.com) and Tommy Evans Evnatech 01545580128.

**Please note that pupils are not allowed to wear trainers around school. Trainers are to be worn during PE/Games lessons only.**

## 7. Mobile Phones

I wish to remind you that whilst pupils may bring mobile phones to school in case they need to use them **after school hours,** their use **is not permitted in school** and we will not take any responsibility for phones that could be damaged or lost in school. Please note that pupils are not to bring IPOD's, MP3 players, headphones/earphones to school.

## 8. School Attendance

I would like to remind parents that under normal circumstances **the only reason children should miss school is if they are too ill to attend.** If this should happen we would appreciate a message by phone before 10.00a.m. on the **first day** of your child's absence. **Should we not hear anything then we will be contacting parents throughout the morning in order to confirm the reason for the absence.** We feel it is important for school to know the exact whereabouts of each pupil in order to comply with the Child Protection Act.

When your child returns to school s/he should bring a note to explain the absence more fully. If any other circumstances make it necessary for your child to miss a day then it is important that this is discussed beforehand, if possible, with the Head of Year, who will then decide if the absence can be authorised.

## 9. Re-sit Examinations

**Please note that no re-sit entries will be made unless accompanied by the appropriate fee.**

If you have any comments or suggestions please write or E-Mail adaeron@ceredigion.gov.uk , we will be happy to hear from you. Thank you for your continued support.

Yours sincerely

Aneurin Roberts
Headteacher

---

**TO BE RETURNED TO THE FORM TEACHER**
**I have received and read the January 2011 Newsletter.**

**Pupil's Name: ..... Form: .....**

**Parent's Signature: ..... Date: .....**

**E-Mail contact address : .....**

**Annwyl Riant / Warcheidwad** **Ionawr 2011**

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb a diolch i chi am eich cefnogaeth dros y tymor diwethaf. 'Roedd y tymor yn un prysur iawn wrth ystyried ymateb i'r Cynllun ôl Arolwg a sicrhau ein bod yn gweithredu'n llawn. Mae'n braf nodi bod y Tîm Arwain newydd yn gweithio'n dda iawn ac, yn barod, wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm a strwythurau sydd o fudd pob dysgwr. Mae'r staff i gyd yn gweithio'n galed ac mae'n amlwg ein bod wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y tymor. Ar ddiwedd y tymor, yn anffodus, bu raid gohirio'r Noson Wobrwyo Flynyddol gyda Mr Glyn Heulyn Roberts fel gŵr gwadd a hefyd ein gwasanaeth carolau yng nghapel Peniel. Nid oedd yn bosibl, chwaith, i'r plant gael ei dathliadau arferol ac yn enwedig i ffarwelio gyda Mrs Anne Hubbard sy 'nawr wedi cymryd ymddeoliad cynnar. Gan fod Mrs Hubbard yn Bennaeth y Chweched Dosbarth, mae'r myfyrwyr am drefnu rhywbeth ffurfiol i ffarwelio â hi yn ystod yr hanner tymor hwn.

Oherwydd yr eira mis Rhagfyr 'rydym wedi penderfynu gohirio Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ar y 28 o Ionawr ac yn hytrach ei gael fel diwrnod ysgol arferol. Mae nifer o bynciau, yn barod, wedi gwneud trefniadau i gael amser ychwanegol, neu wersi arbennig gyda'i dosbarthiadau, os oes gennych gonsyrn neu angen gwybodaeth gofynnwn i chi gysylltu â mi neu'r Pennaeth Blwyddyn. Rwyf wedi cadarnhau gyda'r disgyblion bod yr ysgol ar agor bob nos heblaw nos Wener o 3.15 - 5.00 os ydynt eisiau lle i weithio, gwneud gwaith cartref, defnyddio cyfrifiaduron a chael help ychwanegol. 'Rydym wedi gwneud cais i'r Cynulliad ar gyfer creu clwb ar ôl ysgol a byddwn yn cysylltu â chi gyda'r manylion os byddwn yn llwyddiannus.

Rwyf wedi siarad gyda'r ysgol hŷn ac wedi'i hatgoffa y bydd pob arholiad allanol yn mynd ymlaen beth bynnag fydd y tywydd. Ni all CBAC, y Bwrdd Arholi, ohirio'r arholiadau. Mae'n holl bwysig, felly, eich bod yn dilyn y rhagolygon tywydd yn ofalus ac ystyried gwneud trefniadau os oes eira yn debygol o ddod. Efallai aros gyda ffrind yn Aberaeron y noson cyn yr arholiad yn hytrach na methu dod i mewn ar ddiwrnod yr arholiad oherwydd eira. Byddwn yn sicrhau diweddaru'r plant parthed tywydd garw. Rwyf wedi gofyn i'r plant ystyried unrhyw drefniadau posibl a thrafod gyda'r Pennaeth Blwyddyn neu aelodau o'r Tîm Arwain os oes problem. Gallaf addo i chi y byddwn yn gwneud popeth posibl i helpu gyda'r mater hwn.

Gobeithio eich bod yn teimlo bod ein system ffôn newydd yn ddefnyddiol, yn enwedig yn ystod y tywydd garw gan ein bod 'nawr yn gallu rhoi neges ar y system yn datgan bod yr ysgol ar agor neu ar gau. Rhoddwyd gwybod i Radio Ceredigion, Radio Cymru a Radio Wales ond ni chyhoeddwyd y wybodaeth bob tro. Sicrheir y bydd neges yn cael ei osod ar y system os bydd tywydd garw, os nad oes neges arbennig bydd yr ysgol ar agor. Ar achlysur lle bydd angen cau'r ysgol yn ystod y diwrnod hoffwn bwysleisio y bydd diogelwch y plentyn yn cael y flaenoriaeth bob amser. 'Rydym mewn cysylltiad agos gyda'r cwmnïau bysiau a byddwn yn derbyn cyngor ganddynt parthed aros ar agor neu gau. Mae gennym system lle byddwn yn rhyddhau disgyblion Aberaeron gyntaf oherwydd mae hyn yn helpu trwy leihau nifer y disgyblion ar safle'r ysgol. Byddwn yn gwirio gyda nhw os ydych yn hapus iddynt ddod gartref ac yn ffonio os yn ansicr.

Basau yn ddefnyddiol i ni os fasech yn cysylltu'n syth gyda'r ysgol os oes problem a pheidio ffonio eich plentyn yn uniongyrchol oherwydd mae potensial yma i'r plant gyffroi sy'n gallu bod yn broblem. Cyn gynted a gwneir penderfyniad i gau'r ysgol ceir y disgyblion caniatâd i ddefnyddio eu ffonau symudol.

Er gwybodaeth 'rydym yn dal ati i geisio datblygu cysylltu trwy ddefnyddio E-byst ac rwyf yn ddiolchgar i'r rhai ohonoch, sy'n barod, wedi rhoi gwybodaeth i ni. Os hoffech i ni gysylltu trwy E-bost a/neu Neges Destun (Text Messaging) gofynwn yn garedig i chi gwblhau'r bonyn isod.

1. Yn dilyn mae dyddiadau achlysuron y tymor hwn a dechrau tymor yr haf yr hoffwn i chi eu nodi.

| | |
|---|---|
| **10– 28 Ionawr** | **Arholiadau Modwlar UG/A2** |
| 21 Ionawr | Dosbarthu Adroddiadau Bl. 11 |
| **24 Ionawr** | **Noson Rieni Blw. 11 - 3.45p.m.** |
| **18 Chwefror** | **Eisteddfod yr Ysgol** |
| | |
| **21 – 25 Chwefror** | **Hanner Tymor** |
| | |
| **2 Mawrth** | **Noson Rieni Blw 9 – 3.45p.m.** |
| **4 Mawrth** | **Pigion yr Eisteddfod** |
| **5-12 Mawrth** | **Taith Sgio Les Deux Alpes Ffrainc** |
| **11 Mawrth** | **HMS** |
| **14 Mawrth** | **Noson Rieni Blw 7 – 3.45p.m.** |
| **13 Ebrill** | **Noson Wobrwyo** |
| | |
| 18 Ebrill – 2 Mai | Gwyliau Pasg a Gŵyl Fai |
| | |
| **4 Mai** | **Mabolgampau'r Ysgol** |
| 9-13 Mai | Arholiadau Mewnol Blwyddyn9 |
| **16 Mai – 24 Mehefin** | **Arholiadau Safon UG/A2/TGAU** |
| | |
| **30 May – 3 Meh** | **Hanner Tymor** |
| | |
| **20-24 Mehefin** | **Arholiadau Mewnol Blyn 7,8 a 10** |
| **4 - 8 Gorff** | **Profiad Gwaith Blw 10** |
| **11-15 Gorff** | **Taith i'r Almaen** |
| **15 Gorff** | **Diwedd Tymor** |
| **18-19 Gorff** | **HMS** |

## 2. Cau'r ysgol mewn Argyfwng

Byddwn yn ddiolchgar os fyddech yn trafod y mater o gau'r ysgol mewn argyfwng gyda'ch mab/merch fel y bydd yn gwybod pa gamau i'w cymryd. Bydd hyn, wrth gwrs, ond yn digwydd mewn argyfwng, fel er enghraifft mewn achos o dywydd garw neu o ganlyniadau i broblemau gwres yn yr ysgol. Ar ddechrau'r tymor yma cawsom dywydd garw iawn a gorfodwyd i ni gau'r ysgol. Rydym yn ymddiheuro nad oedd yn bosib gwneud y penderfyniad ar y noson cynt, ond oherwydd nad oedd eira yn Aberaeron ei hun, roedd rhaid aros at y bore. Os y penderfynir cau'r ysgol byddwn yn rhoi gwybod i Radio Ceredigion erbyn 6.45 er mwyn cyhoeddi am 7.00 y.b. Mae sefyllfa'r ysgol a'i dalgylch yn unigryw a gall tywydd fod yn braf yn Aberaeron ond yn lluwch eira yn Synod Inn. Diogelwch y plant sy'n ffocysu ein sylw ac ar sail hynny y byddwn yn penderfynu. Hyderwch na fyddwn yn cymryd risg, na chwaith yn rhoi fyny ein dyletswydd gofal o'ch plentyn.

Yn deillio o drafodaethau gyda Llywodraethwyr, plant a staff rydym yn bwriadu ceisio creu man ar ein safle-we lle gellir cael mynediad at waith pynciol er mwyn i'r bobl ifanc fedru dal ati i astudio a gwneud gwaith ysgol. Roedd rhai o'r myfyrwyr hŷn wedi cadw cysylltiad trwy E-bost ac mae'n werth ystyried y dechnoleg yma hefyd. Os oes gennych syniadau neu awgrymiadau ar sut i wella'r maes yma peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

**3.** Cynhelir **arholiadau TGAU a Safon A/AS** eleni o'r 16eg Fai - 24ain Mehefin 2011 ond bydd rhai arholiadau ymarferol / llafar yn cael eu cynnal cyn Mai 16eg

## 4. Eisteddfod yr Ysgol

Mae Eisteddfod yr Ysgol a gynhelir ar ddydd Gwener Chwefror 18fed yn un o brif ddigwyddiadau'r ysgol ac anogir disgyblion i gymryd rhan yn holl gystadlaethau'r Eisteddfod. Mae cystadlaethau i'r Cymry Cymraeg ac i'r Dysgwyr. **Disgwylir i bob disgybl sy'n mynychu'r Eisteddfod yn y prynhawn a'r nos wisgo'r wisg ysgol briodol.** Bydd gweithgareddau'r prynhawn yn dechrau am 1.00p.m. a gweithgareddau'r nos am 4.15p.m. Disgwylir y byddwn yn gorffen rhwng 9.30 - 10.00p.m.

**Nodwch**

**Eleni eto bydd bysiau'r ysgol yn gadael am 3.15p.m. Ni fydd bysiau'n gadael yr ysgol ar ddiwedd sesiwn y nos a gofynnir i rieni wneud trefniadau teithio eu hunain. Os bydd eich mab / merch yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r nos a heb unrhyw drafnidiaeth i fynd adref, cysylltwch â'r ysgol drwy lythyr cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda.**

Bydd prydau bwyd ar werth yn y Ffreutur rhwng 3.15p.m. a 4.15p.m. i ddisgyblion ac ymwelwyr. Mae gweithgareddau'r prynhawn a'r nos yn agored i'r cyhoedd a gwerthir tocynnau wrth y drws, £4 am y prynhawn a'r hwyr a £3 am yr hwyr. Mae'r Eisteddfod yn un o'r prif weithgareddau ar galendr yr ysgol ac estynnaf wahoddiad cynnes i'r holl rieni i ymuno â ni ar y diwrnod.

## 5. Dyddiad Gadael Ysgol

Bellach, ceir un dyddiad ar gyfer gadael ysgol, sef y dydd Gwener olaf ym Mehefin, yn y flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn cyrraedd 16 oed. Yn 2011 y dyddiad hwn yw **Dydd Gwener Mehefin 24ain.** Rhaid i'r disgyblion aros mewn addysg yn yr ysgol neu fel arall hyd at y dyddiad a gyhoeddwyd. Ni all cyflogwyr gyflogi disgyblion yn llawn-amser tan y dyddiad hwn.

## 6. Gwisg Ysgol

Hoffwn dynnu eich sylw at y rhestr swyddogol o'r wisg ysgol a gofynnwn yn daer i chi gydymffurfio â'r gofynion pan yn prynu eitemau newydd o wisg ysgol. Gellir prynu eitemau o wisg ysgol yn Box of Delights, Aberaeron, (siwmperi, crysau polo a theis), Elegance, Cei Newydd neu Alison Jones Schoolware, PO Box 180 Aberystwyth, SY23 3XE (<mailto:uniform@btinternet.com>)

**Hefyd ni chaniateir i ddisgyblion wisgo esgidiau ymarfer (trainers) o gwmpas yr ysgol. Maent i'w gwisgo yn ystod gwersi Addysg Gorfforol / chwaraeon yn unig.**

## 7. Ffôn Symudol

Hoffwn eich atgoffa y gall disgyblion ddod â ffôn symudol i'r ysgol os ydynt am ei **ddefnyddio ar ôl oriau ysgol.** Fodd bynnag ni chaniateir **ei ddefnydd yn yr ysgol** ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ffonau sy'n cael eu difrodi neu eu colli yn yr ysgol. Ni chaniateir i ddisgyblion ddod ag IPOD's, chwaraewyr MP3, na chlustffonau i'r ysgol.

## 8. Presenoldeb Ysgol

Hoffwn eich atgoffa taw fel rheol **yr unig reswm y dylai disgyblion golli ysgol yw os ydynt yn rhy sâl i fynychu'r ysgol.** Os yw hyn yn digwydd byddwn yn gwerthfawrogi derbyn neges ffôn cyn 10.00 o'r gloch ar **ddiwrnod cyntaf** absenoldeb eich plentyn. **Os na fyddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth byddwn yn cysylltu â rhieni yn ystod y bore er mwyn cadarnhau y rheswm dros yr absenoldeb.** Teimlwn ei fod yn bwysig i'r ysgol wybod lle yn union mae pob plentyn er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amddiffyn Plant.

Pan ddaw eich plentyn yn ôl i'r ysgol dylai ddod â nodyn i egluro mewn manylder ei absenoldeb. Os fydd unrhyw amgylchiadau eraill yn achosi i'ch plentyn golli diwrnod o ysgol yna mae'n bwysig trafod hyn, ymlaen llaw os yn bosibl, gyda'r Pennaeth Blwyddyn er mwyn penderfynu a ellir awdurdodi'r absenoldeb ai peidio.

## 9. Taliad Ail Sefyll Arholiadau

**Ni chofrestrir disgyblion i ail sefyll arholiadau os na dderbynnir y tâl perthnasol.**

Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau, ysgrifennwch neu E-bostiwch adaeron@ceredigion.gov.uk byddwn yn falch clywed eich syniadau. Diolch am eich cefnogaeth barhaol.

Yn gywir

Aneurin Roberts
Prifathro

---

**I'W DDYCHWELYD I'R ATHRO DOSBARTH**
**Rwyf wedi derbyn a darllen Cylchlythyr Ionawr 2011.**

**Enw'r Disgybl: ..... Dosbarth: .....**

**Llofnod Rhiant: ..... Dyddiad: .....**

**Cyfeiriad E-bost ……...**